OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 69

# Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) (Diwygio) 2005

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau) 2000**

**3.** Yn Atodlen 1—

(a) yn lle paragraff 13 rhodder y canlynol —

"**13.** Os yw'n hysbys,

(a) y dyddiad pan ddechreuodd yr athro neu'r athrawes yn ei swydd gyntaf yn athro neu athrawes gymwysedig;

(b) y dyddiad pryd y cyflogwyd yr athro neu'r athrawes am y tro cyntaf (os o gwbl) fel athro cyflenwi neu athrawes gyflenwi o dan baragraff 4 o Atodlen 1 i Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003(**1**); a

(c) y dyddiad pryd y cyflogwyd yr athro neu'r athrawes am y tro cyntaf (os o gwbl) fel athro cyflenwi neu athrawes gyflenwi yn rhinwedd rheoliad 18(2)(**2**) o Reoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2003."; a

(b) hepgorer paragraff 14(d) a'r "a" o'i flaen.

(**1**) O.S. 2003/543 (Cy. 77). Amnewidiwyd paragraff 4 o Atodlen 1 gan O.S. 2004/872 (Cy.87).
(**2**) Mewnosodwyd Rheoliad 18(2) gan O.S. 2004/872 (Cy. 87).